**Y Pwyllgor Deisebau**
**Petitions Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

Medi 2011

Annwyl gyfaill,

Mae Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi derbyn dwy ddeiseb sy'n ymwneud â gweithgareddau llywodraeth leol.

Hoffem glywed gan unigolion, grwpiau neu sefydliadau sydd â diddordeb neu arbenigedd yn y maes hwn er mwyn clywed eu barn am y mater dan sylw. Bydd y sylwadau hyn yn cael eu trin fel tystiolaeth gan y Pwyllgor Deisebau wrth iddo ystyried y ddeiseb.

Dyma'r deisebau dan sylw:

## Ffilmio a Recordio Cyfarfodydd Cyngor

*'Galwn ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i'w gwneud yn ddyletswydd statudol ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i recordio neu ddarlledu holl gyfarfodydd cynghorau sy'n agored i'r cyhoedd, neu eu ffrydio ar y we, er mwyn bod yn agored a thryloyw. Dylai'r ddyletswydd hon alluogi'r cyhoedd, fel arsyllwyr cyfrifol, i recordio neu ffilmio cyfarfodydd o'r fath heb gael caniatâd o flaen llaw, a rhoi rhwydd hynt iddynt ddefnyddio'r deunyddiau y maent yn eu recordio i ddarparu cyswllt uniongyrchol ac ehangach â'r etholwyr.*

## Cwestiynau Posibl i'w Hystyried wrth Ymateb

1. A ydych yn teimlo y dylai cyfarfodydd cyhoeddus gael eu ffilmio? Pam mae hynny'n bwysig?
2. Beth fyddai'n rhwystro ffilmio cyfarfodydd cyhoeddus?
3. A yw Rheolau Sefydlog unrhyw awdurdodau lleol yng Nghymru yn gwahardd ffilmio cyfarfodydd cyhoeddus yn benodol?

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8998
E-bost / Email:petition@wales.gov.uk

**Manylion Gwariant dros £500 gan Awdurdodau Lleol**

'Galwn ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i'w gwneud yn ddyletswydd statudol ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i gyhoeddi manylion yr holl wariant dros £500 er mwyn bod yn agored a thryloyw. Dylai'r manylion gael eu cyhoeddi ar-lein ac mewn fformat sy'n hygyrch i'r cyhoedd, gyda'r rhyddid i ailddefnyddio'r data.

'Mae nifer o gynghorau yn Lloegr bellach yn cyhoeddi'r wybodaeth hon ar eu gwefannau. Mae'r wybodaeth yn barod ar gael yng nghronfeydd data'r cynghorau, felly'r cyfan sydd angen ei wneud yw casglu'r wybodaeth mewn man canolog ac mewn ffordd hygyrch sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Rheoli Data. Byddai'r gost gychwynnol yn cael ei had-dalu gan yr arbedion a ddaw yn sgîl gostyngiad yn nifer y ceisiadau rhyddid gwybodaeth y mae awdurdodau lleol yn eu cael mewn perthynas â manylion gwariant.'


**Cwestiynau Posibl i'w Hystyried wrth Ymateb**

1. A ydych yn teimlo y dylai awdurdodau lleol gyhoeddi manylion gwariant? Os felly, a ddylai hwn fod yn orfodol neu a ddylid ei annog fel arfer gorau?
2. Beth fyddai'n rhwystro'r wybodaeth hon rhag cael ei chyhoeddi?
3. A ydych yn teimlo y dylid cyhoeddi manylion gwariant o £500 a thros £500 yn unig, neu a ddylid cyhoeddi manylion gwariant o dan £500 hefyd?

Os hoffech anfon tystiolaeth atom, byddem yn ddiolchgar i'w derbyn erbyn **3 Tachwedd**. Mae rhagor o ganllawiau mewn perthynas â chyflwyno tystiolaeth wedi'u hatodi i'r llythyr hwn.

Byddem hefyd yn ddiolchgar pe gallech rannu'r cais hwn â rheiny sydd â diddordeb neu, lle bo hynny'n briodol, ei rannu ag unrhyw un o'ch aelodau sefydliadol.

Yn gywir,



**Abigail Phillips**
**Clerc i'r Pwyllgor Deisebau**

**Cyngor ar gyflwyno tystiolaeth**

- Gall y Pwyllgor alw ar y rheiny sydd wedi cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i ategu'r dystiolaeth honno drwy gyflwyno tystiolaeth lafar gerbron y Pwyllgor. Nodwch yn eich ymateb a ydych yn fodlon rhoi tystiolaeth lafar.
- Dylai tystion fod yn ymwybodol y caiff unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynir i'r Pwyllgor ei thrin fel eiddo'r Pwyllgor. Bydd tystiolaeth ysgrifenedig yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Pwyllgor, ac mae'n bosibl y bydd rhannau o'r dystiolaeth hon yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad.
- Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth sy'n ddata personol yn ei farn ef. Os byddwch yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, eich penderfyniad chi yw nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a rhoi dadl resymol dros hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu ymateb i geisiadau am wybodaeth.
- Os ceir cais am wybodaeth a gyflwynwyd o dan ddeddfwriaeth y DU, efallai y bydd angen datgelu'r wybodaeth a ddarperir gennych. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a ddilëwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.